# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

**Pleidleisiau a Thrafodion (230)**

**Dyddiad: Dydd Mawrth 23 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

**13.31**
**Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Gofynnwyd y 14 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 1 a 9 yn ôl.

………………………

**14.23**
**Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

………………………

**14.34**
**Eitem 3: Datganiad Deddfwriaethol gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio: Y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)**

………………………

**14.59**
**Eitem 4: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau: Canolfannau Busnes Technium**

………………………

**15.33**
**Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**

**NDM4591 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

**15.42**
**Eitem 6: Dadl ar Wasanaethau Gyrfaoedd**

**NDM4593 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi 'Uchelgeisiau i’r dyfodol: datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru' ac yn croesawu cynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu strwythur sy'n uno ar gyfer Gyrfaoedd Cymru.

*Cafodd gopi o 'Uchelgeisiau i'r dyfodol: datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru' ei anfon drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 16 Tachwedd 2010.*

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu argymhellion yr adroddiad 'Uchelgeisiau i'r dyfodol' yn llawn mewn ffordd amserol a phriodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 32 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid rhoi cyngor gyrfa heb ragfarn ac er budd y myfyriwr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid integreiddio entrepreneuriaeth gymdeithasol i'r cyngor gyrfa a roddir gan y corff gyrfaoedd newydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 30 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4593 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi 'Uchelgeisiau i'r dyfodol: datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru' ac yn croesawu cynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu strwythur sy'n uno ar gyfer Gyrfaoedd Cymru.

Yn credu bod yn rhaid rhoi cyngor gyrfa heb ragfarn ac er budd y myfyriwr.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 11 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

………………………

**16.22**
**Eitem 7: Dadl ar y cynnydd o ran rhoi rhaglen 'Cymru'n Un' Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith**

**NDM4592 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r cynnydd sy'n parhau i gael ei wneud ar weithredu rhaglen 'Cymru'n Un' Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ar ôl 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' ychwanegu:

ond yn mynegi pryder ynghylch y diffygion parhaus mewn perfformiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 32 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu buddsoddi digon mewn uwchraddio adeiladau ysgolion yn ystod y cyfnod o dwf yn y gyllideb, fel y nodir yn 'Cymru'n Un'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 32 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y methiant parhaus i gyrraedd y targedau ar gyfer amseroedd aros sydd wedi'u nodi yn ‘Cymru'n Un’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 32 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy fel sydd wedi'i nodi yn ‘Cymru'n Un’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 32 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4592 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r cynnydd sy'n parhau i gael ei wneud ar weithredu rhaglen ‘Cymru'n Un’ Llywodraeth Cynulliad Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 15 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**17.06**
**Cyfnod pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.10**

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 24 Tachwedd 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**